**CFA11 Mudiad Meithrin**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Mudiad Meithrin | Evidence from: Mudiad Meithrin

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

Cred Mudiad Meithrin fod gan bob plentyn yng Nghymru'r hawl i fod yn siaradwr Cymraeg, drwy fanteisio ar addysg Gymraeg. Mewn ardaloedd lle nad yw'r Gymraeg i'w chlywed ar y stryd, caiff yr iaith ei ddehongli fel iaith addysg yn unig – neu iaith sydd yn berthnasol i unigolion penodol o fewn y gymuned. O ganlyniad hyn, mae rhai unigolion yn credu nad yw'r Gymraeg yn berthnasol iddyn nhw.

Mae dadansoddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg o Gyfrifiad 2021 yn codi pryderon nad yw'r duedd isymwybodol o ran trosglwyddo rhyng-genedlaethol yn gwbl gyffredin bellach, hyd yn oed yn yr ardaloedd sydd â'r dwysedd uchaf o siaradwyr Cymraeg.

Gwelwyd cwymp yn y gyfradd trosglwyddo'r Gymraeg ymhlith cartrefi cwpwl, lle'r oedd un oedolyn yn gallu siarad Cymraeg, o 45.4% yn 2011 i 40.4% yn 2021. Roedd cyfraddau trosglwyddo'r Gymraeg yn y cartref mewn aelwydydd cwpl lle mai ond un partner sy'n siarad Cymraeg yn uwch pan mai'r fenyw oedd yn siarad Cymraeg. Er hynny, roedd y ganran o'r teuluoedd hyn oedd yn trosglwyddo'r Gymraeg ar yr aelwyd yn llai na 50%. Mae'r cyfraddau trosglwyddo ar gyfer aelwydydd un rhiant (gwryw neu benyw) yr yn fath (53%).

Mae diffyg ymwybyddiaeth o le mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn rhwystr i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg. Awgrymir fod hyrwyddo'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg, yn ogystal â'r ffaith fod croeso i'w ddefnyddio yn ffordd o ddatrys y rhwystr yma.

Mae prinder amser yn rhwystr mawr i unigolion sydd â diddordeb dysgu Cymraeg, felly bysai cyflwyno gwersi Cymraeg yn y gweithle fel rhan o gynllun dysgu proffesiynol yn fuddiol iawn i gynyddu defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn cymunedau.

Nodwn yr angen i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu gweithio drwy'r Gymraeg mewn nifer o feysydd a gwasanaethau arbenigol sydd yn rhan o fywyd teuluoedd ifanc, gan gynnwys bydwragedd, ymwelwyr iechyd ac amryw o weithwyr proffesiynol eraill. Rhaid hefyd sicrhau bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn elfen graidd o ddatblygiad proffesiynol gweithwyr ar draws y sectorau

sydd yn rhan o fywyd teuluoedd ifanc er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb yn y negeseuon sydd yn cael eu rhoi am fanteision dwyieithrwydd ac amlieithrwydd.

Nodwn yr angen i gynnal ymchwil hydredol hirdymor fel un ffordd i gyrraedd y nod hyn.

Mae angen parhau i gyd-weithio gydag arbenigwyr ym maes theori pwtio a newid ymddygiad, gan ddysgu o'r gwaith sydd eisoes wedi ei wneud ym maes iechyd, yn ffordd o gynyddu ewyllys da tuag at y Gymraeg a'i normaleiddio ymhellach.  Mae angen datblygu gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n dylanwadu ar agweddau a dewisiadau ieithyddol unigolion.

Mae gwaith diweddar Yr Athro Bernadette O'Rourke ar fapio defnydd iaith mewn dinasoedd amlieithog yn cynnig ffordd wrthrychol o fapio defnydd ieithoedd dinasyddion amlieithog yn eu bywydau pob dydd.

Yn atodol, cynigiwn fod gwaith ymchwil yn seiliedig ar naratif hunangofiannol unigolion, yn ffordd o ddatblygu dealltwriaeth o'r dylanwadau ar y boblogaeth bresennol.

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

Nod Mudiad Meithrin yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg gan y gwyddom fod derbyn gofal ac addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar yn ei gwneud hi'n haws i ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus.

Noda adroddiad diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg (Gorffennaf 2024) mai dim ond mewn ychydig o gymunedau y byddai modd i blant o aelwydydd ble na siaredir y Gymraeg godi'r Gymraeg heb gefnogaeth y gyfundrefn addysg.  Mae teulu yn sylfaen i ddatblygiad plant a chefnogi rhieni a'r gymuned ehangach i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg fel rhan naturiol o fywyd pob dydd ein plant yn hollbwysig o ran dyfodol y Gymraeg.

Rhaid pwysleisio manteision trosglwyddo iaith ar yr aelwyd, ond rhaid hefyd cydnabod fod iaith yn ffenomen gymdeithasol ehangach. Gall penderfyniad rhieni i gyflwyno'r Gymraeg i'w plant yn gynnar yn eu bywydau ddwyn ffrwyth mewn amser gymharol fyr.  Felly, dylid ystyried rôl y gymuned, teulu estynedig ac eraill mewn trosglwyddo iaith i blentyn.  Rhaid pwysleisio manteision trosglwyddo iaith ar yr aelwyd, ond rhaid hefyd cydnabod fod iaith yn ffenomen gymdeithasol ehangach. Felly, rhaid ystyried rôl y gymuned, teulu estynedig ac eraill mewn trosglwyddo iaith i blentyn.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cefnogi polisi cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg gan blant a'u teuluoedd, gyda ffocws ar bontio rhwng y byd addysg a gofal, y gymuned a'r teulu ei hun.

Mae gweithgareddau Cymraeg i Blant a Chlwb Cwtsh yn benodol yn ceisio codi hyder rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i phlant, a Chylchoedd Ti a Fi yn cynnig man cwrdd i rieni a'u plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn sicrhau llwyddiant, rhaid bod yn ofalus a gwerthfawrogi bod teuluoedd angen amser i ddod i'r arfer ar ddefnyddio'r Gymraeg. Maent felly yn cynnig cyfle i gyflwyno ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd cefnogol a hwyliog.

Mae angen gweithredu i ailgynnau sgiliau Cymraeg pobl a allai fod heb ddefnyddio'r Gymraeg ers gadael yr ysgol, neu sydd wedi colli hyder yn eu sgiliau iaith, i siarad Cymraeg gyda'u plant eu hunain, un ffactor allweddol i'w hystyried ydy effaith defnydd iaith rhwng oedolion ar ganfyddiad plentyn o ddefnyddioldeb y Gymraeg. Mae'r cynlluniau diweddar a phresennol wedi canolbwyntio ar annog rhieni i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'u plant, er mwyn normaleiddio'i ddefnydd a chynyddu'r nifer o siaradwyr brodorol. Serch hynny, mae ymchwil yn dangos mai iaith rhyngweithiadau rhieni sydd fwyaf tebygol o effeithio patrymau defnydd iaith plant dros amser, a gosod sylfaen gadarn i drosglwyddiad y Gymraeg ymysg y genhedlaeth nesaf.

Byddai adeiladu ar yr hyn sydd eisoes yn cael ei gynnig trwy:

- gynnig sesiynau ar ddydd Sadwrn/Sul ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd yn gweithio drwy'r wythnos er mwyn ymestyn cyfleoedd cyswllt tu hwnt i gyfnod absenoldebau mamolaeth / tadolaeth.
- buddsoddi mewn datblygu sesiynau oedolyn-plentyn sydd yn denu cynrychiolaeth o grwpiau gwahanol, gan dargedu gweithgareddau sydd yn denu tadau / dynion a phlant, a grwpiau cymunedol amrywiol i gymryd rhan.
- annog cyd-weithio ar draws darparwyr i gynnig amrywiaeth o weithgareddau i deuluoedd ifanc. Byddai sesiynau dawnsio (e.e. yn Saesneg ceir sesiynau fel Diddy Dance) neu grwpiau chwaraeon yn cynnig cyfleoedd naturiol i gyflwyno defnydd cymdeithasol naturiol o'r Gymraeg.
- ail-gydio mewn ymgyrchoedd lleol penodol sy'n annog pob siaradwyr Cymraeg i gychwyn pob sgwrs yn Gymraeg er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth bod y Gymraeg yn rhan o bob cymuned yng Nghymru.
- fuddsoddi mewn cynllun marchnata i hyrwyddo defnydd o fathodyn iaith gwaith fel bod unigolion sy'n siarad Cymraeg yn fwy ymwybodol o'r ystod o lefydd ble maent yn medru manteisio ar ddefnyddio'r Gymraeg.
- fuddsoddi mewn cynnal sesiynau Clwb Cwtsh a sesiynau ymarfer Clwb Cwtsh yn y gymuned.

Dros dymor y Senedd nesaf, bydd angen agor o'r newydd neu ehangu 70 Cylch Meithrin (a Chylchoedd Ti a Fi ble nad oes rhai eisoes) gan barhau i gefnogi pob Cylch Meithrin i aros ar agor fel adnoddau cymunedol pwysig gan hefyd nodi'r angen am gronfeydd cyfalaf mawr i dalu am estyniadau ac addasiadau gan fydd darganfod lleoliadau addas yn heriol.

Rhaid hefyd annog a chefnogi diwylliant o ymchwilio i resymau pam y mae teuluoedd yn dewis neu ddim yn dewis addysg Gymraeg

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?**

Ar draws Cymru, mae grwpiau Cymraeg i Blant yn annog a chefnogi rhieni a theuluoedd i drosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, trwy gyfrwng sesiynau tylino a ioga babi yn ogystal â sesiynau Stori a Chân.

Mae rhwydwaith cenedlaethol o sesiynau Cylchoedd Ti a Fi sydd yn cwrdd naill ai ar gyfer sesiwn traddodiadol (e.e. mewn neuadd bentref) neu tu allan i fynd 'am dro' dan arweiniad Swyddog Ti a Fi proffesiynol yn sicrhau rhannu negeseuon clir, cyson ac amserol gyda'r teuluoedd.

Mae nifer o gynlluniau llwyddiannus hanesyddol gall eu gweithredu o'r newydd o'u ddiweddaru ychydig. Cyfeiriwn yn benodol at gynlluniau megis 'Kids Soak it Up', 'Mae dy Gymraeg di'n Grêt' a 'Cymraeg o'r Crud'. Byddai darparu a gweithredu'r cynlluniau hyn (gyda'r buddsoddiad ariannol angenrheidiol) unwaith eto yn cefnogi ac yn cynyddu trosglwyddiad y Gymraeg a'i defnydd mewn teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn cynnig ffordd o drafod manteision y Gymraeg, dwyieithrwydd ac amlieithrwydd yn gyffredinol ac addysg Gymraeg yn benodol gyda'r teuluoedd sydd yn mynychu'r sesiynau.

Mae cyrsiau Clwb Cwtsh yn annog teuluoedd i ail-gydio yn eu Cymraeg neu i ddatblygu sgiliau Cymraeg sydd yn briodol ac yn berthnasol i'w defnyddio yn y cartref gyda'r plant lleiaf.

Mae cynnal diwrnodau a digwyddiadau penodol gydag amryw o bartneriaid yn cynnig cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth a chynyddu bwrlwm y Gymraeg mewn ardal benodol. Er mwyn sicrhau llwyddiant, rhaid oes eu cynnal yn rheolaidd er mwyn parhau i gynnig gofod diogel ar gyfer cychwyn y drafodaeth ac annog unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt yn eu cymunedau.

Mae Gŵyl Dewin a Doti, a gynhelir yn flynyddol ym mis Mehefin ar draws Cymru gan Mudiad Meithrin, yn cynnig cyfle i deuluoedd a phlant ifanc i ddod at ei gilydd mewn gofod cymdeithasol. Yn ogystal â chynnig cyfle i brofi adloniant byw yn y Gymraeg, mae hefyd yn amlygu ehangder y gymuned Cymraeg o fewn y gymuned leol.

I'r perwyl hwn, mae Mudiad Meithrin yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddyfnhau gweithgarwch ym maes trosglwyddo iaith gan gefnogi rhieni a'r teulu estynedig trwy amryfal raglenni a grwpiau fel Cylchoedd Ti a Fi, 'Cymraeg i Blant', 'Clwb Cwtsh' a 'Cymraeg yn y Cartref'.

**4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?**

Mae apiau sy'n darllen storïau ac yn cyflwyno caneuon Cymraeg yn ddefnyddiol i siaradwyr sydd â diffyg hyder yn y Gymraeg, oherwydd eu bod yn dysgu ynganiad geiriau - ac felly'n medru bod yn siŵr ei bod yn gywir wrth ddarllen gyda'u plant. Un enghraifft o hyn yw'r ap Ogi Ogi.

Hefyd, mae sianeli YouTube, fel sianel YouTube Dewin a Doti, yn cefnogi teuluoedd i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg ac yn normaleiddio'r defnydd ohoni yn y cartref, drwy sicrhau bod yna ofod digidol diogel fel cartref i gynnwys sydd yn berthnasol i'n plant lleiaf – a hynny'n amlwg i deuluoedd nad sydd yn medru'r iaith eu hunain.

Mae angen buddsoddi mewn datblygu playlists o gerddoriaeth gyfoes ar blatfformau cyffredin megis Spotify er mwyn hwyluso defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol yn ein cymunedau.

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Mae angen sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei weld yn iaith gynhwysol wrth gyfathrebu digwyddiadau, yn ogystal â sicrhau fod pobl leol yn cael eu cynnwys mewn ffyrdd ystyrlon, ac ystyried cynrychiolaeth hil a diwylliant mewn penderfyniadau.

Mae digwyddiadau diwylliannol fel yr Eisteddfod Genedlaethol efo'r gallu i gael effaith bositif, ar yr amod eu bod yn dod a phobl ar daith efo nhw - rhaid sicrhau fod y gynulleidfa ddi-gymraeg yn deall beth sy'n digwydd. Rhaid i sefydliadau fel yr Eisteddfod ymgysylltu efo trigolion lleol sydd ddim yn medru'r iaith mewn ffordd ystyriol.

Yn ystod gŵyl cyhoeddi Eisteddfod Wrecsam 2025, doedd dim esboniad o beth oedd yn digwydd / cynnig cyd-destun i'r sawl nad oedd eisoes yn ymwybodol o ddiwylliant yr Eisteddfod. Arweiniodd hyn at bobl yn holi "What's going on?", "What's all this about?". Wrth farchnata'r digwyddiadau, rhaid sicrhau ein bod yn hyrwyddo ystod yr hyn sydd ar gael wrth brynu tocyn - gan fod cost mynediad yn gallu bod yn rhwystr i fynychu, yn enwedig i'r sawl nad sydd yn ymwybodol beth sydd wedi'i chynnwys.

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

Gweler ein hymateb i gwestiwn 5 uchod.

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Mae strategaeth 'Cymraeg 2050' a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pwysleisio'r nod o sicrhau ffyniant y Gymraeg yn ein cymunedau. Gan ystyried hynny, credwn y dylai cynnal y Gymraeg yn ein cymunedau fod yn un o'r nodau strategol ac yn egwyddor ganolog i unrhyw gynlluniau newydd a argymhellir yn lleol.

Yn ystod blynyddoedd cyntaf ym mywyd plentyn mae trosglwyddo'r Gymraeg drwy'r teulu a'r aelwyd (a'r gwasanaethau gofal blynyddoedd cynnar) yn ganolog i ddyfodol a hyfywedd y Gymraeg. Mae angen calonogi a chefnogi rhieni, teuluoedd ac ymarferwyr blynyddoedd cynnar i drosglwyddo'r iaith i'r plant. Teimlwn fod grwpiau Cymraeg i Blant, y Cylchoedd Meithrin a'r Cylchoedd Ti a Fi ledled Cymru yn adnoddau cymunedol sydd yn cyfrannu tuag at gynnal cymunedau bywiog Cymraeg a hybu defnydd y Gymraeg ar draws Cymru.

Mae toriadau ariannol yn effeithio arnom i gyd, ac rydym yn gweld awdurdodau lleol yn gorfod blaenoriaethu gwasanaethau statudol o fewn eu cyllidebau presennol. Mae hyn wedi arwain at leihad yn y cyllid sydd ar gael i gyflogi swyddogion arbenigol i weithio gyda Chylchoedd Ti a Fi. Er mwyn parhau i gynnig y profiadau lleol gwerthfawr hyn, mae angen buddsoddiad hirdymor i sicrhau trefnydd cyflogedig ar gyfer y Cylchoedd Ti a Fi.

Prif nod rhaglen Cymraeg i Blant yw cynyddu nifer y plant mewn addysg a gofal cyfrwng Cymraeg. Amcanion y rhaglen yw cefnogi rhieni, darpar rieni ac aelodau eraill o'r teulu i gyflwyno a defnyddio'r Gymraeg yn y cartref, trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant, a chefnogi datblygiad ieithyddol plant yn gymdeithasol ac yn addysgiadol. Gwneir hyn trwy raglen amrywiol o grwpiau babi yn cynnwys tylino babi, ioga babi, sesiynau stori, arwyddo a chân a sesiynau Fi a Fy Mabi sydd yn benodol ar gyfer rhieni yn y cyfnod cyn-geni. Wrth i gostau cynnal gwasanaeth o'r fath godi, sgil effaith hyn yw lleihad yn yr hyn a ellir ei gynnig ar lawr gwlad a thoriadau yn y nifer o swyddogion a gyflogir. Mae angen buddsoddiad pellach yn y rhaglen fel bod rhieni a theuluoedd ar draws Cymru yn medru elwa o'r gefnogaeth.

Rhaid hefyd ystyried bod yna waith ymchwil sydd yn awgrymu mai iaith y fam yw'r rhagfynegydd orau o ddatblygiad ieithyddol y plentyn. Mae data'r cyfrifiad (diwethaf) yn cefnogi hyn, ac yn dangos bod y tebygolrwydd o fewn teuluoedd cymysg eu hiaith drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf 10% yn uwch mewn teuluoedd ble'r fam sy'n siarad Cymraeg. Mae angen ystyried ymyraethau pwrpasol i weithio gyda thadau sy'n medru'r Gymraeg mewn teuluoedd cymysg eu hiaith.

Mae angen i ni dalu mwy o sylw i effaith ac arwyddocâd rhywedd trwy'r camau gweithredu i gyd yn fuddiol. Rhaid hefyd ystyried mewn teuluoedd ble mae'r ddau riant yn siarad Cymraeg fod 20% o'r rheini hynny, am ba bynnag rheswm, yn penderfynu peidio siarad Cymraeg gyda'i phlant. Wrth drafod ymdrechion i ddwyn perswâd, ac i ddylanwadu ar bobl mae targedu priodol yn hollbwysig, ac mae angen ystyried oedran, cefndir ethnig, crefydd, a rhywedd wrth wneud hyn.

Mae Cymru wastad wedi bod yn gartref i drawstoriad eang iawn o bobl, ond nid yw hyn bob amser wedi cael ei adlewyrchu yng nghynrychiolaethau gweledol a llenyddol y Gymraeg. Un o nifer o heriau yw sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei rhoi i leisiau Cymraeg eu hiaith o gymunedau Du,

Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig neu Fwyafrif Byd-eang. Mae Mudiad Meithrin eisoes yn gweithredu yn y maes trwy gynlluniau AwDUron ac AwDUra mewn partneriaeth gyda 'Lily Translates' (ac felly'r awdur Jessica Dunrod), ynghyd a cyhoeddi nifer o adnoddau pwrpasol i'r blynyddoedd cynnar:

- 'Cylch i Bawb' cyflwyniad ac adnoddau i annog lleoliadau blynyddoedd cynnar i weithredu'r cysyniad bod bod yn gynhwysol yn golygu mwy na dim ond dangos ymwybyddiaeth o anghenion arbennig, mae hefyd yn galw arnom i feithrin gwerthfawrogiad o gefndiroedd diwylliannol, crefyddol a chymdeithasol amrywiol y plant.
- 'Nodau Natur' sydd yn rhoi pwyslais ar ddathlu amrywiaeth ein treftadaeth amrywiol Gymreig. Cyfuniad o hwiangerddi a rhigymau Cymraeg a rhai o ieithoedd eraill sy'n cael eu clymu i'r diwylliannau amrywiol sy'n rhan o'r Gymru fodern.
- 'Cymru Ni' sy'n dathlu hanes amryw o bobl Ddu Cymru er mwyn cyfrannu at gau'r bwlch gwybodaeth sydd yn bodoli o ran yr adnoddau sy'n addas gyfer plant bach yn y Gymraeg.